

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Hydref 1af, 2015 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Dafydd Williams; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; William Ifor Hughes; Margaret Griffith; Naomi Jones; Gwilym M Thomas; John Williams; Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

Ymweliad Ms Margaret Jones, Bryn Siloh, Chwilog ar ran Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd. Estynnwyd croeso i Ms Jones.

1. Ymddiheuriadau. Y Cynghorwyr; Elis Gwyn Jones; Marian Evans; Alwen Evans ac Anwen Jones.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 17eg, 2015. Diolchodd y Cynghorydd Margaret Griffith am y cerdyn cydymdeimlo dderbyniodd ar ôl ei phrofedigaeth ddiweddar a mynegodd y Cynghorydd Gwilym M Thomas bod y clawdd wedi cael ei dorri ar Stâd Groesffordd, Chwilog.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Oedolion, Iechyd a Llesiant, Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru; Ail Strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd. Derbyniwyd.
 2. Uned Gyfreithiol, Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Dwyfor) (Cyfyngiad Cyflymder 30 40 a 50 m.y.a) 2015. Derbyniwyd er gwybodaeth.
 3. Rheoleiddio; Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carafanau. Bydd y Cynghorydd Sirol yn ysgrifennu ynghylch hyn.
 4. Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol. Penderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa ynghylch nad yw cwmni bysiau Arriva yn fodlon derbyn tocynnau dwy ffordd cwmni bysiau Caelloi ar y daith rhif 3 rhwng Pwllheli a Phorthmadog. Yn ogystal derbyniwyd cwyn bod bysiau Express Motors yn hynod o hwyr neu yn eithriadol o gynnar gyda'r bws 10.20am drwy Roslan am Borthmadog a phenderfynwyd anfon llythyr at y cwmni i gwyno.
 5. Rheoleiddio, Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd; Gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio. Roedd y Cynghorwyr yn anfodlon iawn gyda'r ateb dderbyniwyd gan y Cyngor Sir a phenderfynwyd anfon y gwyn ymlaen gyda chopi o ateb Cyngor Sir Gwynedd at Dafydd Elis-Thomas, AC a Simon Thomas, AC.
 6. Cofrestru, Cyngor Cymuned Llanystumdwy, Sedd Wag Achlysurol – Ward Llanstumdwy. Derbyniwyd er gwybodaeth bod rhybudd o sedd wag yn cael ei arddangos yn lleol. Mae'r rhybudd ar safle we'r Cyngor hefyd.
6. Cyngor Gwynedd – Dim un cais cynllunio hyd yma.
7. Dogfen Ymgynghori'r Bwrdd Iechyd ar y Gwasanaeth Mamolaeth. Roedd Cyngor Iechyd Gogledd Cymru yn cynnig anfon copi o'u hymateb i'r ymgynghoriad. Penderfynwyd gofyn am gopi.

8. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Heyrn wedi torri'n rhydd ar fin y traeth yn Afonwen. Derbyniwyd cwyn gan drethdalwr ynghylch hyn a phenderfynwyd anfon y gwyn ymlaen at Network Rail.

Llanarmon

Llanystumdwy

Rhoslan

Deallir bod y ciosg ger tai Maes Eifion ddim yn gweithio ers tro byd. Penderfynwyd cysylltu gyda BT i ofyn iddynt ei atgyweirio rhag blaen.

Llangybi

9. Ymateb BT i'r problemau gyda'r gwasanaeth yn ardal Y Ffôr dro yn ôl. Cafwyd ateb gan BT yn gofyn am y rhifau ffôn perthnasol. Penderfynwyd anfon yr ymateb at Gyngor Cymuned Llannor gan mai yn ardal Cyngor Cymuned Llannor yr oedd y broblem.

10. Ymateb BT i'r gwyn am y gwasanaeth Bandeang yn yr ardal. Cafwyd ateb gan BT yn gofyn am god post pob ardal. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen at Ofcom.

11. Dyddiad i'r Pwyllgor Sefydlu Busnes ymgynnull. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod nos Iau, Hydref 22ain yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog am 7yh.

12. Swyddfa Archwilio Cymru, Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynyddol 2015-6, 2016-7, 2018-19. Derbyniwyd er gwybodaeth ond anfon llythyr i Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn pam bod cwmni o mor bell o Gymru wedi cael eu dewis?

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

Y Cyngor ar agor i'r Cyhoedd ac i'r Wasg

16. Gohebiaeth oddi wrth Mr David Coleman, Cyn Reolwr, Uned Hawliau Tramwy (Wedi Ymddeol), Cyngor Gwynedd ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Ngwynedd. Derbyniwyd er gwybodaeth gan annog y Cynghorwyr i fynd i'r cyfarfodydd Her Gwynedd sydd yn cael eu trefnu.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

